Adroddiad Blynyddol
y Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth
i'r Prif Weinidog a
Gweinidogion Albanaidd
ar gyfer 2005-2006

HC 1298
SE/2006/95

Adroddiad Blynyddol
y Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth
i'r Prif Weinidog a
Gweinidogion Albanaidd
ar gyfer 2005-2006

Prif Gomisiynydd:
Y Gwir Anrhydeddus Syr Andrew Leggatt

Cyflwynwyd i'r Senedd gan y Prif Weinidog
yn unol ag adran 107(3)
o Ddeddf yr Heddlu 1997

Gorchmynnwyd i gael ei argraffu gan
Dŷ'r Cyffredin ar 13 Gorffennaf 2006

Cyflwynwyd i Senedd yr Alban gan y
y Gweinidogion Albanaidd
Gorffennaf 2006

HC 1298
SE/2006/95
Llundain: The Stationery Office £11.00

Cynnwys

Tudalen

1. Cyflwyniad 2
2. Arolwg o'r flwyddyn 2
3. Y gosodiadau statudol 3
4. Trefniant busnes yr SCG 5
5. Materion arbennig yn ymwneud â'r SCG 7
6. Ymyrraeth eiddo a gwyliadwriaeth ymwthiol 8
7. Gwyliadwriaeth gyfeiriedig a CHIS 10
8. Arolygiadau o asiantaethau gorfodaeth cyfraith 11
9. Arolygiadau o adrannau llywodraethol a chyrff perthnasol 13
10. Awdurdodau lleol 14
11. Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol 16
12. Cyrff cyhoeddus eraill 16
13. Datblygiadau technolegol 17
14. Adnabyddiaeth Awtomatig Rhif Car 18
15. Y flwyddyn i ddod 19

Ychwanegiadau

Ychwanegiad A Awdurdodiadau a roddwyd o dan Ran III Deddf yr Heddlu 1997 ers ei gweithrediad 21

Ychwanegiad B Dadansoddiad yn ôl trosedd o'r awdurdodiadau a roddwyd o dan Ran III Deddf yr Heddlu 1997 22

Ychwanegiad C Awdurdodiadau gwyliadwriaeth ymwthiol a roddwyd o dan Ran II Deddf Rheoliad Pwerau Archwilio 2000 a Deddf Rheoliad Pwerau Archwilio (yr Alban) 2000 ers ei gweithrediad. 23

Ychwanegiad D Dadansoddiad yn ôl trosedd o'r awdurdodiadau a roddwyd o dan Ran II Deddf Rheoliad Pwerau Archwilio 2000 a Deddf Rheoliad Pwerau Archwilio (yr Alban) 24

Ychwanegiad E Blaenoriaethau arolygu 25

Ychwanegiad F Gwariant yr SCG 27

Ychwanegiad G Aelodau'r Swyddfa Comisiynwyr Gwyliadwriaeth 28

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn trafod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2006.

1.2 Fy nyletswydd i yw adolygu:

(a) perfformiad swyddogaethau o dan Ran III Deddf yr Heddlu 1997 ('Deddf 1997');

(b) (heblaw mewn perthynas â Rhyngdoriad Cyfathrebiadau a'r Gwasanaethau Cudd-ymchwil) gweithrediad a pherfformiad y pwerau a'r dyletswyddau a gyflwynwyd neu a osodwyd gan neu o dan Ran II Deddf Rheoliad Pwerau Archwilio 2000 ('RIPA'); a

(c) gweithrediad a pherfformiad y pwerau a'r dyletswyddau a gyflwynwyd neu osodwyd gan neu o dan Ddeddf Rheoliad Pwerau Archwilio (yr Alban) 2000 ('RIP(S)A 2000').

1.3 Yn ymarferol mae hyn yn cynnwys pob gweithgaredd gudd (gan eithrio rhyngdoriad ffôn a llythyr) a gyflawnir gan yr awdurdodau cyhoeddus, gan eithrio'r gwasanaethau cudd-wybodaeth. Er bod Rhan III RIPA, sy'n ymwneud ag amgryptio, hefyd o fewn fy nghyfrifoldeb statudol i, nid yw eto mewn grym.

1.4 Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynwyr Gwyliadwriaeth ('y Comisiynwyr') i werthuso'r holl awdurdodau ar gyfer ymyrraeth eiddo a gwyliadwriaeth ymwthiol, naill ai cyn neu yn union wedi iddynt gael eu rhoi. Mae hawl apelio yn erbyn eu penderfyniadau i mi fel y Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth.

1.5 Fel rhan o'm dyletswydd o dan y tair Deddf ('y Deddfau') i gyflwyno adroddiad blynyddol, rwyf yn parhau i baratoi adroddiad cyfunol.

2. Arolwg o’r flwyddyn

2.1 Mae Rhan III Deddf 1997 mewn grym ers mwy na saith mlynedd bellach a Rhan II RIP(S)A ers bron i chwe blynedd.
2.2 Mae’r ystadegau ar awdurdodiadau ymyrraeth eiddo a gwyliadwriaeth ymwthiol wedi eu hamlinellu ym mharagraff 6 isod. Rwyf yn parhau yn fodlon fod yr awdurdodiadau hyn yn derbyn sylw manwl gan awdurdodau cyhoeddus.

2.3 Mae’r ystadegau ar awdurdodiadau gan yr holl awdurdodau cyhoeddus ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig a Ffynonellau Gwybodaeth Ddynol Guddiedig ('CHIS') wedi eu hamlinellu ym mharagraff 7 isod. Y flwyddyn ddiwethaf dywedais fod rheolaeth gwyliadwriaeth gyfeiriedig yn anwastad, a bod tueddiad i beidio â chydnabod ffynonellau CHIS a ddylai gael eu cydnabod. Mae’r problemau yma yn parhau ac ni chânt eu dileu nes y bydd y rhai sy’n gweithredu’r gweithgareddau yma â digon o hyfforddiant a phrofiad.

2.4 Mae pryderon blaenorol ynglŷn â byrgleriaethau ailadroddus a dyfais, magwrfeydd ac awdurdod gweithredol bellach wedi diflannu wrth i luoedd ddod yn fwy profiadol o ran defnyddio’r ddeddfwriaeth. Mae’r materion sydd bellach yn achosi pryder yn gysylltiedig â’r defnydd cynyddol o dechnoleg a natur well y dechnoleg. Gall technoleg gael ei defnyddio mewn nifer o wahanol ffyrdd na ragwelwyd gan y Senedd, gan gynnwys glynu dyfeisiau tracio wrth wrthrychau sydd i’w trosglwyddo i mewn neu allan o adeiladau arbennig, Adnabyddiaeth Awtomatig Rhif Car (‘ANPR’), systemau camera cudd eraill a llifynnau adnabyddiaeth arbennig.

2.5 Mae’r Swyddfa Gartref yn parhau i ohirio cyflwyniad Rhan III o RIPA, sy’n caniatáu defnyddio offer i gael gafael ar neu i ddadgriptio gwybodaeth electroneg amddiffynedig. Dywedir wrthyf fod y defnydd o nwyddau diogelwch ag amgryptio gwybodaeth gan derfysgwyr a drwgweithredwyr posib yn parhau dan adolygiad, a chyn y caiff Rhan III ddod i rym, bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Côd Ymarfer drafft yn cael ei gynnal a bydd angen ei gyflwyno i Dŷ’r Cyffredin a Thŷ’r Arglwyddi.

2.6 Yn ystod 2005 cynhaliodd Cymdeithas Swyddogion yr Heddlu (ACPO) ar ran y Swyddfa Gartref adolygiad o RIPA, o Ddeddf 1997 ac o ddeddfwriaeth a Chodau Ymarfer cysylltiedig. Gofynnwyd i’r tîm adolygu ystyried agweddau prosesu, rheolaeth a biwrocratiaeth, ac i argymell newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol, arweiniad a Chodau. Er i’r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i’r Swyddfa Gartref ym Mai 2005, mae’r ymgynghoriad eto i’w gynnal cyn y cyflwynir yr adroddiad i Weinidogion.

3. Y gosodiadau statudol

3.1 Mae amcanion a phrif osodiadau Rhan III Deddf 1997 a Rhan II RIPA a RIP(S)A sy'n berthnasol i arolygiaeth gwyliadwriaeth gudd, ynghyd â rhestr o swyddogaethau

statudol y Comisiynwyr, wedi eu hamlinellu yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2000-2001 ac ar wefan yr SCG.

3.2 Rwyf yn parhau i bryderu rhyw gymaint ynglŷn â'r Gorchymyn Rheolaeth Pwerau Ymchwiliol (Ffynonellau Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Chudd-wybodaeth Ddynol) S.I. 2003 Rhif 3171, oedd yn rhwystro pob awdurdod lleol (a llawer o awdurdodau eraill) rhag cyflawni gwyliadwriaeth gyfeiriedig a rhag defnyddio neu gynnal CHIS heblaw bod angen gwneud hynny er mwyn rhwystro neu ganfod trosedd, neu er mwyn rhwystro anrhefn. Mae trafodaethau gydag awdurdodau lleol yn ystod archwiliadau yn awgrymu, gan nad ydynt bellach yn cael awdurdodi gweithgareddau cudd er diogelwch y cyhoedd na chwaith er iechyd cyhoeddus, ni all rai ohonynt bellach gyflawni rhai gweithgareddau defnyddiol yr oeddent yn arfer eu cyflawni. Ond nid yw'r Swyddfa Gartref wedi ei hargyhoeddi fod awdurdodau lleol angen y pwerau hyn.

3.3 Fel yr adroddais yn fy Adroddiad Blynyddol y flwyddyn ddiwethaf, penderfynais ohirio arolygiad yr adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ('HMRC') newydd er mwyn ei galluogi i gynefino â'i swyddogaeth newydd yn dilyn ffurfio'r Gyfarwyddiaeth Ymchwiliadau Troseddol newydd, sy'n cynnwys (o Dollau Tramor a Chartref EM ('HMCE')) yr Arolygiaeth Gorfodaeth Cyfraith ac (o Gyllid y Wlad) y Swyddfa Gydsyniad Arbennig. Ar hyn o bryd ni ellir defnyddio pwerau blaenorol HMCE ar gyfer pwrpasau Cyllid blaenorol, ac i'r gwrthwyneb. Mae Adolygiad Pwerau yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gan HMRC gyda'r bwriad o ymestyn RIPA a RIP(S)A a Deddf 1997 i gynnwys holl gyfrifoldebau'r HMRC. Gobeithir y bydd yr adolygiad yn mynd i'r afael â'r mater hwn, a hyd nes y caiff trefniadau newydd eu gweithredu, bydd pob ymgyrch ymyrraeth eiddo a gwyliadwriaeth ymwthiol yn parhau i angen awdurdodiad cyn-swyddogion HMCE.

3.4 Cychwynnodd yr Asiantaeth Trosedd Ddifrifol wedi ei Threfnu ('SOCA') ar ei gwaith ar 1 Ebrill 2006. Fe'i sefydlwyd fel rhan o Ddeddf Trosedd Ddifrifol wedi ei Threfnu 2005 i gymryd lle'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Troseddol Cenedlaethol ('NCIS'), Sgwad Drosedd Genedlaethol ('NCS'), a'r rhannau sydd ar ôl o HMCE a Chyllid y Wlad sy'n ymladd delio mewn cyffuriau a golchi arian ac sydd heb eu trosglwyddo i HMRC. Trefnwyd yr arolygiad cyntaf o SOCA ar gyfer Medi 2006.

3.5 Mae Deddf yr Heddlu, Trefn Gyhoeddus a Chyfiawnder Troseddol (yr Alban) 2006 yn rhoi statws statudol i'r Asiantaeth Gorfodaeth Cyffuriau Albanaidd ac yn newid Rhan III o Ddeddf 1997 a RIP(S)A er mwyn rhoi'r pŵer i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol i awdurdodi gwyliadwriaeth ymwthiol ac ymyrraeth eiddo. Bydd y Ddeddf, sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2007, hefyd yn newid enw'r Asiantaeth i'r Asiantaeth Orfodaeth Trosedd a Chyffuriau Albanaidd.

4. Trefniant busnes yr SCG

4.1 Bwriad y Deddfau yw gwneud y Comisiynwyr yn gyfrifol am arolygiaeth awdurdodiadau, a'm gwneud i yn gyfrifol am adolygu'r mwyafrif o weithgareddau cudd a gyflawnir gan y rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus. Caiff fy nyletswydd adolygu ei chyflawni trwy gyfrwng arolygiadau gan Arolygwyr o asiantaethau gorfodaeth cyfraith, ynghyd ag ymweliadau dilynol gan y Comisiynwyr neu gennyf i, a chan arolygiadau o awdurdodau cyhoeddus eraill gan y Comisiynwyr neu Arolygwyr Cynorthwyol (neu'r ddau).

4.2 Mae'r ymweliadau hyn yn galluogi Comisiynwyr i ganfod i ba raddau mae'r argymelliadau a wnaethpwyd gan Arolygwyr ac a gadarnhawyd gennyf i yn cael eu gweithredu. Maent hefyd yn darparu cyfle i drafod materion perthnasol – rhywbeth sydd yn fy marn i yn ddefnyddiol i Brif Swyddogion ynghyd ag i Gomisiynwyr.

4.3 Mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn parhau i fod yn gyfrifol am arolygu'r mwyafrif o adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth ynghyd â'r mwyafrif o awdurdodau lleol. Mae rhai o'r awdurdodau cyhoeddus pwysicach (gan gynnwys, o bryd i'w gilydd, asiantaethau gorfodaeth cyfraith) yn cael eu harolygu ar y cyd gan Gomisiynwyr Cynorthwyol ac Arolygwyr.

4.4 Unwaith eto'r flwyddyn hon fe arolygodd fy arolygwyr bob heddlu yn y Deyrnas Unedig. Yn ychwanegol maent wedi arolygu asiantaethau gorfodaeth cyfraith mawr eraill, gan gynnwys Asiantaeth Gorfodaeth Cyffuriau'r Alban, y Gwasanaeth Gwybodaeth Gudd Droseddol Cenedlaethol, y Sgwad Drosedd Genedlaethol, a phrif adrannau llywodraethol fel yr Adran Drafnidiaeth, Masnach a Diwydiant, a Gwaith a Phensiynau. Rwyf yn fodlon fod y blaenoriaethau arolygiad, sy'n cael eu diweddaru'n flynyddol ac sydd wedi eu hamlinellu eto yn Atodiad E'r adroddiad hwn, yn parhau i sicrhau goruchwyliaeth gywir o'r defnyddwyr pwysig hyn o weithgaredd gudd.

4.5 Mae cyfarfodydd y Comisiynwyr, a gynhelir fel arfer tair gwaith y flwyddyn, hefyd yn cael eu mynychu gan Gomisiynwyr Cynorthwyol, Arolygwyr a rheolwyr fy Swyddfa. Yn y flwyddyn adolygu bresennol cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r fath. Maent yn parhau i fod yn werthfawr oherwydd eu bod yn caniatáu i'r Comisiynwyr gymryd penderfyniadau cyfunol ynglŷn â materion yn ymwneud â dehongliad. Mae materion sy'n dilyn o arolygiadau a chyfarfodydd gyda'r awdurdodau cyhoeddus hefyd yn cael eu trafod er mwyn sicrhau dynesiad cyson. Yn achlysurol cyhoeddir canllawiau er mwyn hysbysu awdurdodau cyhoeddus o farnau'r comisiynwyr ar faterion dehongli ac ymarferiad.

4.6 Mae aelodau'r SCG hefyd yn parhau i fynychu cyfarfodydd gyda chyrff eraill er mwyn eu cynorthwyo i wella eu dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a chydsyniad gydag ef. Mae arolygwyr yn parhau i fynd i siarad ar achlysur llawer o ddigwyddiadau hyfforddiant cenedlaethol ac maent yn gyflwynwyr rheolaidd ar gyrsiau gorfodaeth cyfraith swyddogion awdurdodi, gan gynnwys y cwrs a gynhelir gan yr NSLEC. Mae arolygwyr a'r Ysgrifennydd hefyd wedi annerch seminarau a chynadleddau priodol.

4.7 Trefnwyd a chynhaliwyd tri chyfarfod ymgynghorol gorfodaeth cyfraith a dau gyfarfod grŵp ymgynghorol gan Ysgrifennydd yr SCG yn ystod y flwyddyn. Maent yn parhau i fod yn gyfarfodydd adeiladol sy'n cael eu mynychu gan gynrychiolwyr rhanbarthol o'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol. Mae materion yn ymwneud â dehongliad ac ymarferiad yn cael eu trosglwyddo'n rheolaidd i sylw'r Comisiynwyr. Mae'r adborth a dderbyniwyd gan awdurdodau cyhoeddus ynglŷn â'r cyfarfodydd hyn yn hynod bositif.

4.8 Mae gwefan yr SCG yn parhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus a chynorthwyo awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd a bellach yn cynnwys rhan ar ddyfarniadau yn ymwneud â gweithgareddau cudd sydd efallai o ddiddordeb i awdurdodau cyhoeddus. Yn ddiweddar crëwyd rhan newydd sy'n rhestru cyfraith achos perthnasol sy'n gysylltiedig â Rhan II o RIPA, RIP(S)A a Rhan III Deddf 1997. Mae fersiwn Gymraeg o'r wefan ar gael sy'n cynnwys copïau Cymraeg o'm hadroddiadau blynyddol.

4.9 Ymwelwyd â'r wefan 19,571 gwaith yn ystod y flwyddyn, gyda 17,684 ohonynt gan ymwelwyr gwahanol. Mae'r dudalen gartref a'r rhan Cyngor ac Arweiniad yn parhau i fod y rhannau mwyaf poblogaidd, gyda'r diwethaf yn derbyn y nifer fwyaf o ymwelwyr yn Hydref a Thachwedd 2005, ac Ionawr a Mawrth 2006. Mae'r adborth gan awdurdodau lleol ac ymwelwyr eraill yn parhau yn werthfawrogol. Y peiriant chwilio 'Google' yw'r prif gyfeirydd i'r wefan.

4.10 Mae gwariant yr SCG ar gyfer y flwyddyn bresennol wedi ei grynhoi yn Ychwanegiad F, ac mae rhestr o aelodau'r SCG ar ddiwedd y flwyddyn wedi ei gynnwys yn Ychwanegiad G. Ni restrir unrhyw staff o Weithrediaeth yr Alban gan mai gyda gweithrediadau masnachol sy'n berthnasol i Weithrediaeth yr Alban yn unig y mae staff Gweithrediaeth yr Alban yn cefnogi'r Comisiynwyr, h.y. nid ydynt yn gweithio'n gyfan gwbl i'r SCG.

5. Materion arbennig yn ymwneud â'r SCG

Apeliadau gan swyddogion awdurdodi

5.1 Dim ond un apêl gan swyddog awdurdodi a gafwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Rhoddwyd awdurdodiad gan Brif Gwnstabl i ymyrryd yn gudd yn eiddo person drwgdybiedig gan ddefnyddio llifyn unigryw anweladwy. Diddymwyd yr awdurdodiad gan Gomisiynwyr ar sail y ffaith nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r person drwgdybiedig yn cyflawni 'trosedd ddifrifol', ac os felly, pa un ai y byddai'n arwain at 'elw ariannol sylweddol'. Fe wrthodais yr apêl. Ni all troseddau dyfodol gael eu cydgrynhoi â throseddau gorffennol i gynrychioli 'elw ariannol sylweddol', oherwydd yr unig droseddau sy'n berthnasol ar gyfer y pwrpas hwnnw yw'r rhai sy'n cynrychioli 'troseddau difrifol' sydd eto i'w nodi.

Anghysondebau adrodd

5.2 Dyma'r ail flwyddyn imi ofyn i'r Prif Swyddogion roi gwybod i mi o'r holl ymgyrchoedd cudd lle na chydymffurfiwyd ag anghenion statudol, a hefyd o achosion sy'n methu yn y Llys oherwydd diffygion mewn gwyliadwriaeth gudd. Mae'r angen i'm hysbysu yn sicrhau fod camgymeriadau a chamweddau yn dod i'm sylw bron yn syth, gan olygu y gallant, lle bo angen, gael eu harchwilio gan un o fy Arolygwyr naill ai ar unwaith neu yn ystod yr arolygiad nesaf o'r asiantaeth honno.

5.3 Mae'r mwyafrif o achosion o oruchwyliaeth heb ei awdurdodi a ddaw i'm sylw, fel yn y gorffennol, yn deillio o'r ffaith nad yw'r mwyafrif o'r rhai sy'n gweithredu gweithdrefnau cudd wedi eu hysbysu gan eu rheolwyr o dermau'r awdurdodiadau. Gall hyn arwain at ymyrraeth eiddo a gwyliadwriaeth ymwthiol anghyfreithlon, ac mae'n cynrychioli methiant sylfaenol ar ran y rheolwyr. Mae asiantaethau gorfodaeth cyfraith hefyd i fod i roi gwybod imi o'r holl doriadau sy'n ymwneud â CHIS a gwyliadwriaeth gyfeiriedig, ond nid ydynt yn gwneud hyn bob amser. Mae'n debyg y bydd unrhyw doriadau a ddarganfyddir gan fy Arolygwyr na adroddwyd i mi yn destun sylwadau negyddol mewn Adroddiadau Blynyddol i ddod.

Riportio i'r Prif Weinidog a'r Gweinidogion Albanaidd

5.4 Ni fu angen imi riportio i'r Prif Weinidog nac i Weinidogion Albanaidd yn ystod y flwyddyn ar unrhyw fater yn ymwneud â'm cylch gwaith.

Perthynas gyda Chomisiynwyr eraill

5.5 Mae'r Comisiynwr Rhyngdoriad Cyfathrebiadau bellach wedi cychwyn arolygu'r un awdurdodau cyhoeddus yr wyf wedi fy ngorchymyn i'w cadw dan adolygiad. Hysbyswyd ei swyddfa felly o fanylion amserlen arolygu'r SCG. Cytunodd y ddau dîm arolygu y byddant yn ceisio sicrhau bod o leiaf mis rhwng ymweliadau â'r un awdurdod cyhoeddus. Rwyf yn deall na fydd hyn efallai'n bosib bob amser, ond fe fydd yr SCG yn gwneud popeth bosib i leihau'r baich ar y rhai sy'n cael eu harolygu.

Newidiadau staff

5.6 Mae Syr Michael Hutchison yn ymddeol fel Comisiynwr Gwyliadwriaeth ar 30 Mehefin 2006, ac mae ein gwerthfawrogiad yn fawr iddo. Mae ei ddoethineb, synnwyr cyffredin, gymedroldeb, gyfeillgarwch a'i ofal dros eraill yn golygu iddo wneud cyfraniad hanfodol i'r sefydliad ac i lwyddiant yr SCG. Rwy'n hyderus y bydd safonau'r SCG yn parhau'n uchel yn dilyn penodiad Syr Charles Mantell fel ei ddilynydd.

5.7 Rwy'n ddiolchgar iawn i Stephen James am ei wasanaeth i'r SCG. Cyn ac wedi ei ymddeoliad fel Cadlywydd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan, fe gyflawnodd waith y Prif Arolygydd Gwyliadwriaeth, Tony Williams, yn dilyn ei farwolaeth, nes i'w ddilynydd, Sam Lincoln, a ymunodd â'r SCG ym Mawrth 2006, gael ei benodi.

Cydnabyddiaeth

5.8 Unwaith eto, ni fyddai fy adolygiad o'r flwyddyn yn gyflawn heb gydnabyddiaeth gyhoeddus gennyf o'r gwaith cydwybodol a gyflawnwyd nid yn unig gan yr Arolygwyr ond hefyd gan y Comisiynwyr, y Comisiynwyr Cynorthwyol a staff yr SCG. Mae eu dyletswyddau yn drwm ond bob amser o ddefnydd, ac yn aml nid ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol.

6. Ymyrraeth eiddo a gwyliadwriaeth ymwthiol

6.1 Mae pwerau a dyletswyddau'r Comisiynwyr o ran archwilio a phenderfynu pa un ai y dylid awdurdodi awdurdodiadau o dan Ddeddf 1997, RIPA neu RIP(S)A yntau peidio, yn cael eu hesbonio yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2000-2001 ac maent wedi eu cynnwys ar wefan yr SCG.

Ystadegau

6.2 Mae ystadegau ar gyfer awdurdodiadau ymyrraeth eiddo a gwyliadwriaeth ymwthiol ar gyfer y blynyddoedd diwethaf wedi eu cynnwys yn y tablau yn Ychwanegiadau A a B. Fel yn y gorffennol, nid wyf wedi nodi'r rhifau unigol ar gyfer pob asiantaeth gan y byddai hyn yn rhoi argraff o'u hymarferion gweithredol a allai fod y gamarweiniol. Mae'r mwyafrif o awdurdodiadau yn dal yn gysylltiedig â throseddau yn ymwneud â delio mewn cyffuriau, llofrudd a therfysgaeth.

Ymyrraeth eiddo

6.3 Gan eithrio adnewyddiadau, arwyddwyd 2,310 awdurdodiad ymyrraeth eiddo yn ystod 2005-2006, sef cynnydd bychan o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol (2,210 y flwyddyn ddiwethaf). Adnewyddwyd 475 awdurdodiad yn ystod 2005-2006, o'i gymharu â 493 y flwyddyn flaenorol.

6.4 Bu 195 achos lle y defnyddiwyd gosodiadau brys o'r math a ganiateir gan ddeddfwriaeth. Bu un achos hefyd o awdurdodiad yn cael ei arwyddo'n gywir yn absenoldeb y Prif Arolygwr. Y flwyddyn flaenorol roedd y ffigyrau hyn yn 212 a 3 yn ôl eu trefn. Mae'n ymddangos mai'r rheswm am y gostyngiad bychan yn nifer yr achosion brys yw gwell dealltwriaeth gan heddluoedd o ba bryd y dylid defnyddio'r gosodiadau brys.

6.5 Diddymwyd pedwar awdurdod, sef ffigwr tebyg i'r flwyddyn ddiwethaf (chwech). Methodd yr holl achosion hyn y prawf angenrheidrwydd. Yn achos chwe achos

nid oedd modd eu diddymu na dileu'r awdurdodiadau gan nad oeddent wedi eu cynnwys yn y Ddeddf berthnasol: roeddent yn annilys.

Gwyliadwriaeth ymwthiol

6.6 Arwyddwyd 435 awdurdodiad gwyliadwriaeth ymwthiol yn ystod 2005-2006, sef gostyngiad bychan o'i gymharu â 461 y flwyddyn flaenorol. Mae rhai Prif Gwnstabliaid wedi ein hysbysu eu bod yn ddefnyddwyr isel o oruchwyliaeth ymwthiol oherwydd diffyg adnoddau. Mae nifer yr awdurdodiadau a adnewyddir, pa fodd bynnag, heb newid rhyw lawer: arwyddwyd 94 adnewyddiad y flwyddyn hon o'i gymharu â 87 y flwyddyn ddiwethaf.

6.7 Defnyddiwyd gosodiadau brys mewn 25 awdurdod ac ni fu'n rhaid arwyddo'r un ohonynt yn absenoldeb y Prif Swyddog. Mae hyn yn debyg i'r flwyddyn ddiwethaf (39 a dim yn ôl eu trefn).

7. Gwyliadwriaeth gyfeiriedig a CHIS

Ystadegau

7.1 Cafodd ystadegau ar gyfer y defnydd o oruchwyliaeth gyfeiriedig a CHIS eu darparu gan yr holl asiantaethau gorfodaeth cyfraith a'r mwyafrif o'r cyrff cyhoeddus eraill.

Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig

7.2 Arwyddodd asiantaethau gorfodaeth cyfraith 23,628 awdurdodiad gwyliadwriaeth gyfeiriedig yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2006, gyda 3,073 yn dal yn ddilys ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Mae hyn o'i gymharu â 25,518 a 3,653 y flwyddyn flaenorol, sef gostyngiad yn nefnydd y pwerau hyn.

7.3 Arwyddwyd 6,924 awdurdodiad gwyliadwriaeth gyfeiriedig ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill yn ystod y flwyddyn, gyda 1,340 yn dal yn ddilys ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn hefyd yn cynrychioli cynnydd yn y defnydd o'r fath bwerau, gyda'r ffigyrau ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf yn 6,110 a 1,060 yn ôl eu trefn.

CHIS

7.4 Penodwyd 4,559 CHIS gan asiantaethau gorfodaeth cyfraith yn ystod y flwyddyn; diddymwyd 5,211 yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys rhai a benodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol); ac roedd 4,075 yn weithredol ar ddiwedd Mawrth 2006. Y ffigyrau ar gyfer y flwyddyn flaenorol oedd 4,980, 4952 a 4,452 yn ôl eu trefn, gan awgrymu lleihad yn nefnydd y ffynonellau. Er y bu symudiad tuag at ddulliau mwy agored o

blismona, rwy'n dal i gael fy synnu gan y ffaith nad yw rhai Unedau Trosedd yn ystyried casglu gwybodaeth fel un o'u blaenoriaethau allweddol, er fod asiantaethau gorfodaeth cyfraith yn ddiweddar wedi bod yn symud tuag at blismona dan arweiniad gwybodaeth. Pryderir hefyd ynglŷn â'r ffaith fod rhai lluoedd yn cyfyngu'r arian sydd ar gael ar gyfer CHIS, gan olygu fod llai o CHIS yn cael eu penodi.

7.5 Yn ystod yr un cyfnod penodwyd 437 CHIS gan awdurdodau lleol. Diddymwyd 269 o'r rhain yn ystod y flwyddyn ac roedd 151 yn weithredol ar ddiwedd Mawrth 2006. Mae hyn yn cymharu â 308, 204 a 53 yn ôl eu trefn y flwyddyn ddiwethaf, sef cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r pwerau hyn wrth i awdurdodau lleol ddod yn fwy cyfarwydd â hwy.

7.6 Archwilir materion yn ymwneud â gwyliadwriaeth uniongyrchol a CHIS yn fanwl yn ystod arolygiadau o awdurdodau cyhoeddus. Cânt eu trafod hefyd pan fo'r asiantaethau hyn yn cyfarfod â'r Ysgrifennydd a'r Prif Arolygwr Gwyliadwriaeth, a phan gyflwynir problemau dehongliad a phwysig eraill i'r Comisiynwyr am arweiniad.

8. Arolygiadau o asiantaethau gorfodaeth cyfraith

8.1 Rwyf yn parhau i ddefnyddio'r term 'asiantaethau gorfodaeth cyfraith' i gyfeirio at y cyrff hynny sydd â'r awdurdod i ddefnyddio gwyliadwriaeth ymwthiol. Fel yn y gorffennol, arolygir y defnyddwyr gweithgaredd gudd hyn yn flynyddol. Y flwyddyn hon cynhaliwyd 60 arolygiad o asiantaethau gorfodaeth cyfraith, gan gynnwys 44 heddlu yng Nghymru a Lloegr, wyth heddlu yn yr Alban, Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon, y Sgwad Drosedd Genedlaethol, y Gwasanaeth Gwybodaeth Gudd Droseddol Cenedlaethol, yr Asiantaeth Orfodaeth Cyffuriau Albanaidd, Lluoedd EM yng Ngogledd Iwerddon, Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

8.2 Yn gyffredinol fe'm bodlonwyd gyda'r safonau a ddarganfuwyd ym mhob asiantaeth orfodaeth cyfraith. Rwy'n hynod fodlon gyda'r ffaith fod y mwyafrif bellach wedi creu Swyddfa Awdurdodiadau Cudd (CAB) i weinyddu a goruchwylio awdurdodiadau. Mae CAB effeithlon yn hanfodol os yw rheolaeth i fod yn ufudd â statud. Mae hefyd yn amlwg nawr, pan nad oes gan y CAB drosolwg o geisiadau ac awdurdodiadau gwyliadwriaeth gyfeiriedig, mae'r safon yn is a gall asiantaeth fod mewn peryg o gyflawni gweithgareddau cudd mewn dull anghyfreithlon. Mae'r defnydd o system ymgeisio ac awdurdodi GT sydd wedi ei rhwydweithio, a threfniadau polisi sy'n golygu fod staff CAB yn goruchwylio ceisiadau ac awdurdodiadau yn feirniadol, hefyd yn cyfrannu at reolaeth effeithiol o'r broses.

8.3 Mae'r ffaith fod y cwrs Swyddog Awdurdodi a gynhelir gan y Ganolfan Gorfodaeth Cyfraith Arbenigol (NSLEC) yn parhau fel yr unig gwrs sydd ar gael ar gyfer swyddogion gorfodaeth cyfraith yn achos pryder. Yn y mwyafrif o luoedd nid yw darpariaeth na hyfforddiant presennol yn paratoi swyddogion awdurdodi'n ddigonol ar gyfer eu swyddogaethau. Mae staff sydd heb eu hyfforddi'n ddigonol neu sy'n

anwybodus yn aml yn dibynnu ar dempledi i baratoi ceisiadau neu awdurdodiadau, ac mae hyn yn arwain at ddiffyg ystyriaeth briodol ac ym mron bob achos canlyniad anfoddhaol.

8.4 Gan i'r asiantaethau canlynol gael eu cyfuno, ail-strwythuro neu eu harolygu yn ystod y flwyddyn arolygiad ddiwethaf, penderfynais ohirio eu harolygiad:

• Cyllid a Thollau EM (yn flaenorol Tollau Tramor a Chartref EM a Chyllid y Wlad);

• Heddlu Niwclear Sifil (Heddlu'r Awdurdod Ynni Atomig y DU (UK AEAC) yn flaenorol);

• Cangen Reoli'r Llynges Frenhinol, Heddlu Milwrol Brenhinol a Heddlu'r Awyrlu Brenhinol.

Caiff pob un ei arolygu yn ystod y flwyddyn arolygiad 2006/2007.

8.5 Rwyf wedi penderfynu nad oes bellach angen arolygu unedau ymchwiliad Cangen Reoli'r Llynges Frenhinol, yr Heddlu Milwrol Brenhinol, a Heddlu'r Awyrlu Brenhinol yn flynyddol. Yn hytrach fe gânt eu hadolygu bob yn ail flwyddyn.

8.6 Rwy'n pryderu ynglŷn â'r ffaith nad yw'r rhan fwyaf o asiantaethau gorfodaeth cyfraith wedi cyflwyno trefniadau effeithiol ar gyfer delio gyda, storio a dinistrio deunydd a ddaeth i'w meddiant trwy wyliadwriaeth gudd. Cyfrifoldeb yr holl rai sy'n rheoli gweithgareddau cudd yw hyn.

8.7 Gwelwyd rhywfaint o welliant yn achos asiantaethau gorfodaeth cyfraith o ran drafftio ceisiadau a hysbysiadau i'r Comisiynwyr. Yn aml, pa fodd bynnag, mae achosion gwybodaeth yn llawer rhy hir. Eu pwrpas yw cyfiawnhau'r defnydd o weithgaredd gudd. Nid yw ailadroddiad yn ychwanegu dim; yn hytrach mae'n gwastraffu amser yr ymgeiswyr, y swyddogion awdurdodi a'r Comisiynwyr. Mae'n adlewyrchu'n sâl ar hyfforddiant, ac hefyd yn awgrymu diffyg arolygiaeth effeithlon. Yn ychwanegol mae'n arwain at gwynion camarweiniol ynglŷn â 'biwrocratiaeth'.

8.8 Bydd y bwriad hysbys i gyfuno lluoedd Cymru a Lloegr dros y ddwy flynedd nesaf yn darparu cyfle eithriadol ar gyfer adolygu a sefydlu systemau a phrosesau RIPA yn y lluoedd newydd, gan gymryd i ystyriaeth y wybodaeth a enillwyd yn ystod y saith mlynedd ddiwethaf.

8.9 Bydd yr SCG yn ceisio amrywio cwmpas a hyd arolygiadau asiantaethau gorfodaeth cyfraith er mwyn cymryd perfformiad da i ystyriaeth.

8.10 Rwyf wedi penderfynu nad oes angen mwyach cyhoeddi'n flynyddol rhestr fanwl o bwyntiau ymarfer drwg a da a nodwyd yn ystod arolygiadau o asiantaethau gorfodaeth cyfraith. Beth sydd angen yn awr yw i'r rhai sydd ynghlwm gymryd y pwyntiau a nodwyd yn barod i ystyriaeth a'u gweithredu. Ymysg yr ymarferion da mae: sefydlu swyddfeydd awdurdodau canolog wedi eu staffio gydag arbenigwyr, polisïau a hyfforddiant cadarn, defnydd da o ddidolwyr ar gyfer archwilio awdurdodiadau cyn

iddynt gael eu cyflwyno i swyddogion awdurdodi, sefydlu sicrwydd safon effeithiol, cydnabyddiaeth gan swyddogion a benodwyd i gyflawni ymgyrchoedd cudd eu bod wedi gweld a deall termau'r awdurdodiadau, cysondeb ynglŷn â pha un ai y dylai awdurdodiadau gael eu hymofyn yntau peidio, a gwefannau a newyddlenni RIPA llawn dychymyg.

8.11 Yn ystod y flwyddyn ni welwyd y gwelliannau oedd eu hangen yn yr awdurdodiadau ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig. Mewn llawer i achos mae ceisiadau yn parhau i gymysgu angen, cymesuroldeb ac ymyrraeth gyfochrog. Mae swyddogion dibrofiad yn aml yn cymhlethu'r broblem trwy ddarparu awdurdodiadau anneallus sydd weithiau ddim yn awdurdodi'r weithgaredd arbennig a geisiwyd amdani. Mae hyn yn arwain at weithgaredd gudd heb ei awdurdodi, a gall olygu y caiff unrhyw nwydd a feddiannir yn ystod gweithgaredd o'r fath ei wrthod ar gyfer achos cyfreithiol. Yn y flwyddyn sydd i ddod bydd awdurdodiadau ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig yn cael eu hadolygu'n fwy manwl.

8.12 Fel cefnogaeth ychwanegol i asiantaethau gorfodaeth cyfraith caiff dogfen Gweithdrefnau ac Arweiniad SCG ei chyhoeddi'n fuan. Mae'r arweiniad yn cynrychioli barnau tebygol y Comisiynwyr pe byddent yn trafod ac yn penderfynu ynglŷn â'r materion. Rwyf yn parhau i wahodd asiantaethau gorfodaeth cyfraith i yrru manylion unrhyw fater y maent yn aneglur yn ei gylch i Ysgrifennydd yr SCG.

9. Arolygiadau o adrannau llywodraethol a chyrff perthnasol

9.1 Cyflawnwyd pedwar ar ddeg arolygiad o adrannau llywodraethol a chyrff perthnasol. Dyma'r rhestr ohonynt:

- Adran Gwaith a Phensiynau
- Adran Fasnach a Diwydiant
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (Financial Services Authority)
- Gwasanaeth Carchar EM (Cymru a Lloegr)
- Y Swyddfa Gartref – Gwasanaeth Mewnfudiad y DU
- Asiantaeth Arforol a Gwylwyr y Glannau
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Gwasanaeth Carchar Gogledd Iwerddon
- Y Post Brenhinol ccc
- Asiantaeth Gwasanaethau Cyffredin GIC Albanaidd
- Gwasanaeth Carchar Albanaidd
- Swyddfa Twyll Difrifol
- Asiantaeth Gwasanaethau Gweithredydd a Cherbyd

9.2 Mae rhai o'r grŵp cymysgryw hwn yn gwneud defnydd sylweddol o arolygiaeth gyfeiriedig a CHIS. Mae llawer ohonynt nawr yn y broses o greu cyrff archwiliad fydd yn

gweithio ar sail genedlaethol o dan strwythur reolaeth unigol. Bydd hyn yn golygu y gellir darparu cymorth gwell i'r rhai sydd angen defnyddio gweithgareddau cudd, a bydd hefyd yn hwyluso eu harolygiad.

9.3 Mae pob adran ac asiantaeth lywodraethol bellach wedi ei harolygu am yr ail dro. Mae'n amlwg fod y mwyafrif ohonynt yn parhau i ddefnyddio gweithgareddau cudd fel dewis olaf. O ganlyniad, nid yw'r mwyafrif â'r profiad sydd ei angen i reoli a goruchwylio proses ymgeisio ac awdurdodi gydsyniol. Y flwyddyn hon rhybuddiais dwy adran lywodraethol y buaswn yn ymarfer fy mhŵer statudol ac yn hysbysu'r Prif Weinidog pe na fyddwn yn gweld gwelliannau sylweddol. Ar ôl hynny fe'm bodlonwyd yn y ddau achos fod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

9.4 Rwyf wedi adolygu'r strategaeth ar gyfer arolygu Gwasanaethau Carchar EM yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae anawsterau eithriadol mewn perthynas â rheoli gweithgareddau cudd mewn carchardai, ond yn dilyn arolygiadau uwch, y flwyddyn hon rwyf wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau i Gyfarwyddwyr Cyffredinol Gwasanaeth Carchar Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae bellach angen diwygio sylweddol a chynaliadwy er mwyn sicrhau gwell cydsyniad gydag anghenion statudol. Bydd yr awdurdodau yma'n cael eu harolygu eto'r flwyddyn hon i ddarganfod pa mor llwyddiannus y mae'r newidiadau angenrheidiol wedi bod hyd yn hyn.

9.5 Cyn belled â phosib, rwyf wedi newid yr amserlen arolygu er mwyn sicrhau fod cyfarwyddiaeth ac asiantaeth pob adran lywodraethol yn cael ei arolygu yr un pryd.

10. Arolygiadau o awdurdodau lleol

10.1 Y flwyddyn hon cyflawnwyd 151 arolygiad o awdurdodau lleol, sef nifer sylweddol uwch na'r flwyddyn ddiwethaf (111). Nid oes ganddynt y pwer i awdurdodi ymyrraeth eiddo na gwyliadwriaeth ymwthiol, a chânt eu harolygu yn llai aml nac asiantaethau gorfodaeth cyfraith oherwydd eu bod yn defnyddio eu pwerau yn llawer llai.

10.2 O'r 442 awdurdod lleol ym Mhrydain Fawr a arolygwyd, mae 266 bellach wedi eu harolygu o leiaf ddwywaith, ac mae safon y cydsyniad gyda darpariaethau statudol yn parhau i wella. Cyflawnir arolygiadau ychwanegol o'r Cynghorau hynny sy'n achosi pryder arbennig. Bu'n rhaid imi orchymyn pedwar arolygiad pellach o awdurdodau lleol y flwyddyn hon.

10.3 Mae'r arolygiadau yn parhau i ddangos fod dealltwriaeth gynyddol o RIPA a RIP(S)A o fewn yr awdurdodau cyhoeddus hyn, a gwelwyd llawer o enghreifftiau o ymarfer da. Fel yn y gorffennol, defnyddir gweithgaredd gudd yn fwyaf aml gan adrannau sy'n delio gyda safonau masnachol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chan y rhai sy'n gweinyddu budd-daliadau. Mae Deddf Trwyddedu 2005 yn golygu fod awdurdodau lleol bellach yn gyfrifol am ystod ehangach o faterion trwyddedu, a all olygu defnydd uwch o weithgareddau cudd.

10.4 Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol a arolygwyd wedi mabwysiadu polisïau a phrotocolau ysgrifenedig sy'n darparu canllaw perthnasol i'w staff, ond mae llawer ohonynt yn rhy amleiriog, gan arwain at gwynion o fiwrocratiaeth. Ni ddylai'r dogfennau hyn ailadrodd y Codau Ymarfer a'r Deddfau'n unig, ac ni ddylai polisïau a gweithdrefnau gael eu creu heb ystyriaeth briodol o le a pha bryd y gall gweithgareddau cudd fod eu hangen. Mae'r ffaith fod prinder hyfforddiant da ar gyfer awdurdodau lleol yn golygu fod angen i reolwyr ddyfeisio cynlluniau mewnol perthnasol. Mae'r rhai sy'n gwneud hyn yn fwy tebygol o allu datblygu arferion cydsyniol.

10.5 Mae awdurdodi CHIS gan awdurdodau lleol bellach yn dod yn fwy cyffredin. Er bod creu systemau cryf a darpariaeth hyfforddiant addas ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan mewn system CHIS yn gallu golygu llawer o waith, ni ddylai awdurdodau gael eu digalonni rhag gwneud yr hyn sydd ei angen. Mewn rhai achosion mae lluoedd heddlu lleol wedi cynnig hyfforddiant a chymorth arall.

10.6 Nid yw'r mwyafrif o awdurdodau yn defnyddio cyfrifiaduron i gofnodi a chadw awdurdodiadau. Rwy'n parhau i bryderu ynglŷn â'r ffaith y gall cofnodion llawysgrif gael eu colli, gan gyfaddawdu'r ddyletswydd i'w cadw. Er y gall newid i system gyfrifiadurol fod yn ddrud, yn aml mae'n bosib defnyddio rhaglenni sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan awdurdodau eraill. Gall diffyg GT arwain at fethiant i gadw Cofnod Canolog cywir o awdurdodiadau. Mae cread Cofnod Canolog effeithlon, fel sy'n ofynnol gan y Codau Ymarfer, yn darparu adnodd mwy effeithiol na chadw awdurdodiadau mewn rhwymwr yn unig.

10.7 Rhaid i awdurdodau lleol fod yn ymwybodol y gall uwch reolwyr adrannau sy'n gwneud defnydd isel o RIPA neu RIP(S)A ddiystyru anghenion gweithredol o ganlyniad i ddiffyg hyfforddiant. Mae'n faes lle mae profiad yn aml werth mwy na gradd.

10.8 Yn ystod y flwyddyn archwilio nesaf caiff cyfres o ymweliadau eu cynnal yn seiliedig ar yr egwyddorion a ailadroddir er cyfleustra yn Ychwanegiad E. Mae awdurdodau Unedol, Metropolitan, Bwrdeistrefi Llundain, Albanaidd a Chymraeg i'w harolygu bob yn ail flwyddyn, a'r Cynghorau Sir a Dosbarth bob tair blynedd. Bydd angen arolygu perfformwyr gwael yn amlach, tra bydd y rhai sy'n gyson yn perfformio'n dda yn cael eu harolygu'n llai aml.

10.9 Mae arolygiadau gan Gomisiynwyr Gwyliadwriaeth Cynorthwyol fel arfer yn troi o amgylch trafodaethau gyda swyddogion uwch, tra bod Arolygwyr yn tueddu i roi pwyslais mwy ar archwilio cofnodion. Heb unrhyw amheuaeth y rheswm am hyn yw'r gwahaniaethau mewn hyfforddiant ac addasrwydd rhwng barnwyr a swyddogion yr heddlu. Yn ddelfrydol byddai arolygiadau gan Gomisiynwyr Gwyliadwriaeth Cynorthwyol ac Arolygwyr yn digwydd bob yn ail, ond nid yw hyn yn bosib yn aml oherwydd bod Comisiynwyr Gwyliadwriaeth Gynorthwyol yn arolygu mwy o awdurdodau lleol na'r Arolygwyr.

10.10 Mae Ysgrifennydd yr SCG yn trefnu Grŵp Ymgynghorol Awdurdodau Lleol, yn debyg iawn i'r un a sefydlwyd ar gyfer asiantaethau gorfodaeth cyfraith. Mae'r grŵp hwn yn trafod materion yn ymwneud â dehongliad ac ymarferiad. Cyfarfu unwaith eto'r flwyddyn hon a chytunwyd i gynnal cyfarfodydd bob yn ail flwyddyn yn y dyfodol. Mae'n bwysig fod yr awdurdodau cyhoeddus perthnasol yn gwneud defnydd llawn o'r grŵp a'r materion a drafodir ganddo.

11. Arolygiadau o'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol

11.1 Fe barheais gyda'm polisi o beidio ag arolygu unrhyw Ymddiriedolaeth GIC nac Awdurdod Iechyd Arbennig, ac yn unol â fy argymhelliad, mae pob Awdurdod Iechyd a sefydlwyd o dan adran 8 Deddf Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol 1977 bellach wedi eu dileu o Ran II Atodlen 1 RIPA.

11.2 Oherwydd imi gael fy hysbysu y byddai pob gweithgaredd gudd yn GIC Cymru a Lloegr yn cael ei gweithredu gan y Gwasanaethau Gwrth-Dwyll a Sicrwydd ('CFSMS'), arolygwyd y corff hwn gan yr SCG yn Ebrill 2003 ac unwaith eto yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

11.3 Yr unig gyrff GIC sydd bellach yn awdurdodau cyhoeddus perthnasol ar gyfer Rhan II RIPA (a dim ond ar gyfer pwrpasau rhan 28) yw CFSMS ac ysbytai arbennig Ashworth, Broadmoor a Rampton. Mae CFSMS wedi dod yn rhan o awdurdod iechyd arbennig o'r enw'r Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIC, ac mae cyfeiriadau i CFSMS yn y Teclynnau Statudol perthnasol wedi eu newid yn unol â hynny.

12. Arolygiadau o gyrff cyhoeddus eraill

12.1 Fe nodais yn fy adroddiad y flwyddyn ddiwethaf fy mhryder ynglŷn â'r ffaith i'r Gwasanaethau Tân gael eu cynnwys o fewn deddfwriaeth RIPA gan nad oes angen iddynt ddefnyddio gwyliadwriaeth gudd yn aml iawn. Arolygwyd pedwar ar ddeg awdurdod yn ystod y flwyddyn. Nid oedd gan yr un ohonynt reswm dros ddefnyddio gwyliadwriaeth gudd heblaw am resymau safonau proffesiynol pan fo defnydd y pwerau yn fwy aml na pheidio yn anaddas. Rwyf felly wedi gohirio arolygiadau dyfodol o'r awdurdodau hyn.

12.2 Yn y cyfamser cefais wybod gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog y bydd y Gorchymyn Diwygiad Rheoli (Diogelwch Tân) 2005 yn golygu y bydd defnydd RIPA gan awdurdodau tân yn ddianghenraid. Bydd y moratoriwm ar arolygu'r awdurdodau hyn felly'n parhau.

12.3 Gan i'r awdurdodau canlynol gael eu cyfuno neu eu hail-strwythuro yn ystod y flwyddyn arolygiad ddiwethaf, penderfynais ohirio eu harolygiad:

- Y Comisiwn Hapchwarae (yn flaenorol y Bwrdd Hapchwarae);
- Awdurdod Cwynion Annibynnol yr Heddlu.

Caiff y rhain eu harolygu yn ystod y flwyddyn arolygiad 2006/2007.

12.4 Mae'r Swyddfa Masnachu Teg â'r hawl i awdurdodi gwyliadwriaeth ymwthiol ac ymyrraeth eiddo, ac felly caiff ei drin fel pe bai'n asiantaeth gorfodaeth cyfraith ac yn cael ei arolygu'n flynyddol.

13. Datblygiadau technolegol

13.1 Y flwyddyn hon cychwynnais arolygu'r Unedau Cymorth Awyr y tu fewn i'r prif asiantaethau cyfraith. Mae hyn oherwydd bod yr offer sydd wedi ei gynnwys ar hofrenyddion ac awyrennau aden-sefydlog mor soffistigedig fel y gallant gyflawni gwaith gwyliadwriaeth gudd sylweddol. Yn gyffredinol maent yn gwneud hyn mewn cydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth. Bydd yr arolygiadau hyn yn parhau yn ystod y flwyddyn i ddod.

13.2 Mae swyddogion awdurdodi yn aml yn anghofio defnyddio'r adroddiadau posibilrwydd technegol cyn awdurdodi defnydd offer technegol. Gall hyn arwain at awdurdodi anaddas yn dilyn methiant i gymryd i ystyriaeth addasrwydd yr offer arfaethedig wrth asesu cymesuroldeb, angen ac ymyrraeth gyfochrog.

13.3 Mae'r rhan fwyaf o Unedau Cymorth Technegol asiantaethau gorfodaeth cyfraith yn cynnal lefelau uchel o ddiogelwch ac arolygiaeth mewn perthynas ag offer technegol. Mae'r unedau gweddol fychan hyn yn naturiol yn gyfrifol am ddefnyddio offer yn y ffordd fwyaf ymwthiol, ac fel arfer mae eu gwaith yn broffesiynol iawn.

13.4 Os yw offer technegol yn cael ei ddefnyddio dramor, mae'n bwysig bod ystyriaeth fuan yn cael ei roi i anghenion deddfwriaethol y wlad fel bod cynnyrch yr offer yn dderbyniol fel tystiolaeth yn y Deyrnas Unedig.

13.5 Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd cyflwyniad i'r Comisiynwyr ar gyflawni gwyliadwriaeth gudd ar y Rhyngrwyd. Esboniwyd yr anawsterau o ran dod o hyd i weinyddwr, 'dudalen we' neu 'ystafell sgwrs' arbennig ar gyfer nodi testun cais neu awdurdod. Mae'r Uned Trosedd Technoleg Uwch Genedlaethol, sydd bellach yn rhan o SOCA ac yn cael ei galw'n 'E-Crime', ag ymchwilwyr cyswllt yn y lluoedd heddlu sy'n arbenigwyr yn y maes hwn.

13.6 Oherwydd bod technoleg Adnabod Wyneb yn ymwthiol, rhaid i awdurdodau cyhoeddus fod yn ofalus cyn ei defnyddio. Dylent ystyried sut i'w defnyddio, os oes

angen awdurdod i'w defnyddio, ac os hynny, pa fath o awdurdod. Nid yw'r dechnoleg yr un â system CCTV arferol. Mae'n dal i gael ei datblygu a rhaid ei chadw dan adolygiad.

14. Adnabyddiaeth awtomatig rhif car

14.1 Mae ANPR wedi profi'n hynod effeithiol o ran lleihau trosedd ac mae'n enghraifft dda o blismona dan arweiniad gwybodaeth. Ond mae defnydd camera ANPR yn cynrychioli gwyliadwriaeth pan fo llun canfyddadwy yn cael ei gofnodi o berson mewn cerbyd. Mae hefyd yn gyfystyr â chasglu gwybodaeth breifat ynglŷn â pherson, pa un ai os yw'r person yna wedi ei nodi ar gyfer pwrpas yr ymchwiliad neu'r weithrediad yntau peidio. Fe fydd y weithdrefn felly'n agored i'w herio os na chaiff ei hawdurdodi.

14.2 Mewn achos arferol, os yw camera yn cael ei osod mewn safle amlwg ac mae hi'n amlwg ei fod yn gamera, ni fydd ei ddefnydd yn gudd. Bydd yr un peth fel arfer yn wir os yw rhybudd digonol o bresenoldeb camera yn cael ei roi. Ond nid yw ANPR yn achos arferol, a gellir dadlau, hyd yn oed os yw camera ANPR yn amlwg, fod y wyliadwriaeth yn parhau yn gudd os yw'r unigolion yn y cerbyd yn anymwybodol fod y camera yn tynnu ac yn cofnodi lluniau canfyddadwy ohonynt. Nid yw esbonio gwir bwrpas offer yn gryno yn hawdd, ac nid yw'n bosib paratoi rheolau sy'n esbonio beth yw rhybudd digonol o bresenoldeb camera a'i bwrpas.

14.3 Os yw'r camera wedi ei osod mewn ffordd sy'n golygu ei fod yn cofnodi nifer fawr o'r cerbydau sydd wedi eu cynnwys, am ryw reswm neu'i gilydd, yn y gronfa ddata, yn arbennig os oes cyswllt i gofnodion camera'r Asiantaeth Briffyrdd, mae'n annhebygol y gallai ei ddefnydd gael ei awdurdodi o dan naill ai RIPA na RIP(S)A. Efallai fod materion hawliau dynol ynghlwm â defnydd gwybodaeth breifat i greu delwedd o symudiadau unigolion neu gerbydau arbennig. Mewn achos o'r fath, byddai derbynioldeb tystiolaeth mewn achos llys yn debygol o ddibynnu ar a fyddai ei dderbyn yn cael effaith negyddol ar degwch y gweithrediadau.

14.4 Barn unfrydol y Comisiynwyr yw nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn addas ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau sylfaenol a all ddilyn o ddefnyddio camerâu ANPR. Mae hyn oherwydd na ragwelwyd y dechnoleg bresennol, neu o leiaf ei defnydd helaeth, wrth baratoi'r ddeddfwriaeth. Mae'r Comisiynwyr o'r farn y bydd angen deddfwriaeth er mwyn sefydlu fframwaith boddhaol fydd yn caniatáu'r defnydd o'r dechnoleg ddiweddaraf. Cymhlethir y sefyllfa gan y ffaith y gellir defnyddio'r dechnoleg bresennol mewn nifer o wahanol ffyrdd ac ar lefelau gwahanol o effeithlonrwydd.

14.5 Rwyf felly'n annog yr Ysgrifennydd Cartref i hyrwyddo deddfwriaeth o'r fath yn ôl yr angen.

15. Y flwyddyn i ddod

15.1 Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi cynlluniau i gyfuno'r heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Fe fydd y Comisiynwyr yn nodi unrhyw ddirywiad yn strwythurau newydd y safonau cydsyniad a gyrhaeddir ar hyn o bryd gan yr heddluoedd unigol.

15.2 Yn ystod y flwyddyn i ddod caiff y strwythurau archwiliad a gwybodaeth ddiwygiedig a sefydlwyd yn yr asiantaethau gorfodaeth cyfraith diweddar fel SOCA a HMRC eu harolygu am y tro cyntaf. Bydd disgwyl i reolwyr uwch yn y cyrff newydd hyn gymryd mantais o'r deunydd sylweddol sydd bellach ar gael ar greu systemau RIPA sy'n effeithiol a chydsyniol. Ond hoffwn bwysleisio ar y cychwyn yr angen i osgoi nifer gormodol o swyddogion awdurdodi.

15.3 Fel ymateb i unrhyw ymgynghoriad a gyflawnir, bydd y Comisiynwyr yn esbonio'r prif adroddiad ac argymhellion yr Adolygiad RIPA oherwydd ei bod hi'n bwysig fod eu swyddogaeth yn cael ei gydnabod a'i ddeall yn y gweithdrefnau a adolygir. Lle bo modd, bydd y Comisiynwyr, sydd i gyd (saith ohonynt) wedi dal swydd farnwrol uchel, yn cymhwyso dehongliad o'r Deddfau y maent yn gytûn arno. Ni allant fod yn rhan o adolygiadau ar y cyd gan y gallai hynny olygu drafftio dogfennau y byddant yna'n gorfod eu dehongli, ac ni allant roi cyngor mewn achosion unigol heblaw wrth esbonio awdurdodiad. Ond byddant yn cynorthwyo i drefnu egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol i weithrediad gweithgareddau cudd.

15.4 Rwyf yn ddiolchgar iawn o fod wedi cael y cyfle i gyfeirio a datblygu'r SCG ers ei ddechreuad yn fy ffordd fy hun. Mae'r asiantaethau gorfodaeth cyfraith a'r mwyafrif o awdurdodau cyhoeddus bellach yn deall ac yn gweithredu gosodiadau'r Deddfau. Mae'r SCG felly llwyddo yn ei brif amcan, a bellach yn enghraifft benigamp of sut y gall arolygiaeth effeithlon sicrhau fod ystyriaeth ddigonol yn cael ei roi i hawliau unigolion pan fo awdurdodau cyhoeddus yn gorfod cymryd mesurau ymwthiol er diogelwch y cyhoedd.

15.5 Bydd fy olynydd, Syr Christopher Rose, yn dod â phrofiad heb ei ail o gyfraith droseddol i swydd y Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth, ac rwy'n falch o allu trosglwyddo arweiniad yr SCG i'w ddwylo ef.

Ychwanegiad A

Ychwanegiad A

AWDURDODIADAU A RODDWYD O DAN RAN III DEDDF YR HEDDLU 1997 (DIWYGIEDIG) YN YSTOD Y TAIR BLYNEDD DDIWETHAF

	2003-2004			2004-2005			2005-2006		
	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm
Cyfanswm nifer yr awdurdodiadau (heb gynnwys adnewyddiadau)	2,340	143	2,483	2,072	138	2,210	2,177	133	2,310

AWDURDODIADAU BLAENOROL

	2003-2004			2004-2005			2005-2006		
	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm
Nifer o achosion angen awdurdodiad*	269	21	290	232	17	249	220	7	227
Achosion angen awdurdodiad blaenorol yn ôl categori:									
Annedd	174	7	181	162	11	173	158	5	163
Swyddfa	29	10	39	33	5	38	27	1	28
Llofft gwesty	63	4	67	35	1	36	33	1	34
Materion dan reolaeth braint gyfreithiol	2	0	2	0	0	0	2	0	2
Deunydd newyddiadurol cyfrinachol	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Gwybodaeth bersonol gyfrinachol	1	0	1	2	0	2	0	0	0

Ychwanegiad B

Ychwanegiad B

DADANSODDIAD O'R AWDURDODIADAU YN ÔL TROSEDD A RODDWYD O DAN RAN III DEDDF YR HEDDLU 1997 (DIWYGIEDIG) YN YSTOD Y TAIR BLYNEDD DDIWETHAF

	2003-2004			2004-2005			2005-2006		
	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm
Ymosodiad	7	3	10	9	2	11	15	0	15
Byrgleriaeth/lladrad	110	1	111	96	0	96	109	0	109
Cynllwyn	35	0	35	10	0	12	12	0	12
Delio gyda chyffuriau	1275	116	1391	1157	105	1262	1198	101	1299
Troseddau drylliau (gan gynnwys lladrad arfog)	116	3	119	108	4	112	119	2	121
Herwgipio/cribddeiliaeth	20	1	21	34	0	34	35	0	35
Golchi arian	37	0	37	56	5	61	67	0	67
Llofruddiaeth/colli bywyd	170	2	172	164	8	172	161	8	169
Mewnfudiad anghyfreithiol wedi'i drefnu	29	0	29	47	0	47	41	0	41
Osgoi treth	116	0	116	48	0	47	56	0	56
Terfysgaeth	171	6	177	212	9	221	215	9	224
Arall*	79	10	89	121	5	126	151	11	162

*Dim ond y mathau mwyaf cyffredin o drosedd a restrir, gan gynnwys llwgrwobrwyaeth, llygredigaeth a throseddau rhywiol. O ganlyniad, efallai na fydd y cyfansymiau hyn yn adlewyrchu nifer yr awdurdodiadau a roddwyd.

Ychwanegiad C

Ychwanegiad C

AWDURDODIADAU A RODDWYD O DAN RAN II DEDDF RHEOLAETH PWERAU AROLYGIAETH 2000 A DEDDF RHEOLAETH PWERAU AROLYGIAETH (YR ALBAN) 2000 YN YSTOD Y TAIR BLYNEDD DDIWETHAF

	2003-2004			2004-2005			2005-2006		
	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm
Cyfanswm rhif yr awdurdodiadau (heb gynnwys adnewyddiadau)	437	10	447	434	27	461	418	17	435
Achosion yn ôl achos:									
Cerbyd preifat	126	3	126	171	10	181	199	18	207
Adeilad preswyl	311	10	321	263	17	280	219	9	228

Ychwanegiad D

DADANSODDIAD YN ÔL TROSEDD O AWDURDODIADAU A RODDWYD O DAN RAN II DEDDF RHEOLAETH PWERAU AROLYGIAETH 2000 A DEDDF RHEOLAETH PWERAU AROLYGIAETH (YR ALBAN) 2000 YN YSTOD Y TAIR BLYNEDD DDIWETHAF

	2003-2004			2004-2005			2005-2006		
	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm
Ymosodiad	8	0	8	11	0	11	7	0	7
Byrgleriaeth/lladrad	15	0	15	13	1	14	18	0	18
Cynllwyn	4	0	4	6	0	6	6	0	6
Delio gyda chyffuriau	162	8	170	156	13	169	166	11	177
Troseddau drylliau (gan gynnwys lladrad arfog)	18	1	19	17	0	17	23	0	23
Herwgipio/cribddeiliaeth	11	0	11	11	0	11	13	1	14
Golchi arian	4	0	4	2	0	2	4	0	4
Llofruddiaeth/colli bywyd	139	1	140	139	8	147	111	3	114
Mewnfudiad anghyfreithiol wedi'i drefnu	2	0	2	3	0	3	2	0	2
Osgoi treth	3	0	3	3	0	3	6	0	6
Terfysgaeth	22	0	22	15	3	18	14	0	14
Arall*	34	0	34	48	2	50	41	2	43

*Dim ond y troseddau mwyaf cyffredin a restrir, gan gynnwys llwgrwobrwyo a llygredigaeth a throseddau rhywiol. O ganlyniad, efallai na fydd y cyfansymiau hyn yn adlewyrchu nifer yr awdurdodiadau a roddwyd.

Ychwanegiad E

Blaenoriaethau arolygu

I'w harolygu'n flynyddol
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
Heddlu Niwclear Sifil
Lluoedd EM yng Ngogledd Iwerddon
Heddluoedd Cymru a Lloegr
Heddlu Gogledd Iwerddon
Heddluoedd yr Alban
Heddlu Porthladd Dover
Heddlu Porthladd Lerpwl
Asiantaeth Trosedd Ddifrifol wedi'i Threfnu
Asiantaeth Gorfodaeth Cyffuriau'r Alban

Adran Gwaith a Phensiynau
(gan gynnwys yr Asiantaeth Ddiogelwch a Phensiynau, y Swyddfa Gyswllt Ymchwiliadau a Gwasanaethau Archwiliad)
Asiantaeth yr Amgylchedd
Gwasanaeth Carchar EM
Tollau Thramor a Chartref EM
Cyfarwyddiaeth Mewnfudiad a Chenedligrwydd
Gwasanaeth Carchar Gogledd Iwerddon
Grŵp Y Post Brenhinol ccc
Gwasanaeth Carchar Albanaidd

I'w harolygu bob yn ail flwyddyn
Heddlu ac Asiantaeth Warchod y Weinyddiaeth Amddiffyn
Cangen Reoli'r Llynges Frenhinol
Heddlu Milwrol Brenhinol
Heddlu'r Awyrlu Brenhinol

Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC)
Adran ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch
Awdurdodau Iechyd Arbennig (Gwasanaeth Gwrth Dwyll a Rheolaeth Diogelwch y GIC)
GIC yr Alban (Adran Gwasanaethau Cenedlaethol)
Adran Fasnach a Diwydiant
Adran Drafnidiaeth
Awdurdodau Lleol – Unedol, Metropolitan, Bwrdeistref Llundain, Cynghorau Albanaidd a Chymraeg
Asiantaeth Arforol a Gwylwyr y Glannau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Swyddfa Masnachu Teg

Swyddfa Ombwdsman yr Heddlu ar gyfer Gogledd Iwerddon
Asiantaeth Taliadau Gwledig
Asiantaeth Gwarchod yr Amgylchedd Albanaidd
Adran Weithredol Amgylchedd a Materion Gwledig yr Alban.
Swyddfa Twyll Difrifol
Asiantaeth Gwasanaethau Gweithredydd a Cherbyd

I'w harolygu bob 3 mlynedd
Comisiwn Elusen
Asiantaeth Cynnal Plant
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (Financial Services Authority)
Asiantaeth Safonau Bwyd
Comisiynwr Gwybodaeth
Awdurdodau Lleol – Cynghorau Sirol a Dosbarth
Asiantaeth Reoli Meddyginiaethau a Nwyddau Gofal Iechyd (MHRA)
Swyddfa Cyfathrebiadau
Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr
Scottish Accountant in Bankruptcy

Blaenoriaeth arolwg i'w phenderfynu wedi i'r arolygiad cyntaf gael ei gyflawni
Y Bwrdd Hapchwarae
Ysbytai arbennig yn Ashworth, Broadmoor a Rampton
OFSTED

Ychwanegiad F

Gwariant SGC ar gyfer Ebrill 2005 – Mawrth 2006

Disgrifiad	Cyfanswm cost £
Costau staff a recriwtio	1,207,471
Teithio a chynhaliaeth	128,076
Hyfforddiant a datblygiad	1,487
Cynadleddau a chyfarfodydd	13,849
Technoleg gwybodaeth a thelathrebu	31,269
Llyfrau, papurach ac argraffu	28,202
Offer swyddfa	3,265
Tâl post a chostau negesydd	278
Costau llety	92,498
Cyfanswm	**1,506,395**

Ychwanegiad G

AELODAU'R SWYDDFA COMISIYNWYR GWYLIADWRIAETH - MAWRTH 2006

Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth
SYR ANDREW LEGGATT

Comisiynydd Gwyliadwriaeth

ARGLWYDD COULSFIELD

SYR MICHAEL HUTCHINSON

SYR LIAM McCOLLUM

SYR CHARLES McCULLOUGH

SYR PHILIP OTTON

ARGLWYDD SUTHERLAND

Comisiynydd Gwyliadwriaeth Cynorthwyol

ARGLWYDD COLVILLE O CULROSS

MR JEREMY FORDHAM

DR COLIN KOLBERT

Prif Arol. Gwyliadwriaeth
STEPHEN JAMES QPM
(Samuel Lincoln o Fai 2006 ymlaen)

RICHARD ALLSOPP
Arolygydd (rh/a)

ANDREW MACKIAN
Arolygydd

IRWIN NETTLESHIP
Arolygydd

CLARE RINGSHAW-DOYLE
Arolygydd

LESLIE TURNBULL
Arolygydd

DAVID WILSON
Arolygydd (rh/a)

Ysgrifenyddes SCG
JENNIFER RIACH

JANE SHEEHAN
Ysgrif. Bersonol

JOANNE BREEN
Swyddog SCG GI

GRAHAM SCOTT
Rheolwr Swyddfa SCG

DARREN FEARNLEY
Rheolwr Gwaith Achos a Gweinyddol

FATIMA THOLLEY
Swyddog Gwaith Achos

RAF SABATER
Swyddog Gweinyddiaeth Gyffredinol

GWAG
Swyddog Cymorth Gweinyddol

JEREMY DIXON
Cydlynydd Arolygiad

JOHN BONNER
Swyddog Cymorth Arolygiadau

YVETTE MOORE
Swyddog Cymorth Arolygiadau

Aelodau o'r SCG a adawodd yn ystod y cyfnod adrodd:
Pauline Williams, Rheolwraig Swyddfa SCG (achlysurol)
Sarah Welfoot, Swyddog Gwaith Achos

Argraffwyd yn y DU ar gyfer The Stationery Office Limited
ar ran Rheolwr Swyddfa Bapurach EM
ID 187804 06/06
Argraffwyd ar Bapur yn cynnwys 75% gwastraff ôl-ddefnyddiwr a 25% pwlp ECF

Gyda diolch i'r Grŵp Gweithrediadau Technegol (De), SOCA am ddarparu'r lluniau ac i Brightside Print & Design Ltd am gynorthwyo gyda dyluniad yr adroddiad.

PO Box 29105
Llundain SWIV IZU
Ffôn: 020 7828 3421
Ffacs: 020 7592 1788
www.surveillancecommissioners.gov.uk

Cyhoeddwyd gan TSO (The Stationery Office) ac ar gael gan:

Arlein
www.tso.co.uk/bookshop

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebion ffacs 0870 600 5533
Archebwch trwy ffonio'r Llinell Ffôn Seneddol Cost-isel 0845 7 023474
E-bost: book.orders@tso.co.uk
Ffôn testun 0870 240 3701

Siopau TSO
123 Kingsway, Llundain WC2B 6PQ
020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394
68-69 Bull Street, Birmingham B4 6AD
0121 236 9696 Ffacs 0121 236 9699
9-21 Princess Street, Manceinion M60 8AS
0161 834 7201 Ffacs 0161 833 0634
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
18-19 High Street, Caerdydd CF10 1PT
029 2039 5548 Ffacs 029 2038 4347
71 Lothian Road, Caeredin EH3 9AZ

0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

The Parliamentary Bookshop
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 020 7219 3890
Archebion ffacs 020 7219 3866

Asiantaethau Achrededig TSO
(gweler yr Yellow Pages)

a thrwy lyfrwerthwyr da